## ATODLEN 4

Rheoliad 3

## ADAR: GOFYNION WRTH ROI TRINIAETHAU PENODOL A GANIATEIR

Pan roddir triniaeth i aderyn, a honno'n driniaeth sydd yn y rhestr isod, rhaid iddi gael ei rhoi yn unol â'r amod neu'r amodau a bennir ar gyfer y driniaeth honno.

### Ysbaddu

**1.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

### Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen

**2.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

### Ofidectomi.

**3.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

### Fasdoriad

**4.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Ni chaniateir rhoi'r driniaeth ond fel rhan o raglen fridio at ddibenion cadwraeth.

Rhaid rhoi anesthetig.

### Tocio pig dofednod

**5.** Rhaid rhoi'r driniaeth gan ddefnyddio offeryn addas, ac ar—

(a) y big isaf a'r big uchaf fel ei gilydd, heb fwy na thraean wedi'i dynnu, neu

(b) y big uchaf yn unig, heb fwy na thraean wedi'i dynnu.

Rhaid atal unrhyw waedlif sy'n dod o'r big yn sgil hynny drwy ei serio.

Ar ddofednod y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy ac a gedwir mewn sefydliadau gyda 350 neu ragor o ieir dodwy, ni chaniateir i'r driniaeth—

(i) ond gael ei rhoi er mwyn atal pigo plu neu ganibaliaeth;

(ii) ond gael ei rhoi cyn 1 Ionawr 2011;

(iii) gael ei rhoi i ddofednod y bwriedir iddynt fod yn ieir dodwy (neu sy'n ieir dodwy) ac sy'n 10 niwrnod oed neu'n hyn.

### Torri crogrib

**6.** Pan na fo'r twrci yn hŷn na 21 o ddiwrnodau oed, caniateir rhoi'r driniaeth naill ai drwy ei phinsio allan â llaw neu drwy ddefnyddio offeryn addas.

**Tynnu bysedd traed ffowls domestig a thyrcwn**

**7.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i aderyn sy'n 3 diwrnod oed neu'n hyn onibai bod llawfeddyg yn barnu ei bod yn angenrheidiol ei rhoi.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 diwrnod oed neu'n hyn na hynny.

**Torri crib**

**8.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i aderyn sy'n 3 diwrnod oed neu'n hŷn onibai bod llawfeddyg yn barnu ei bod yn angenrheidiol ei rhoi.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 3 diwrrnod oed neu'n hŷn na hynny.

**Laparosgopi**

**9.** Rhaid rhoi anesthetig.

**Tocio blaenau adennydd**

**10.** Ni chaniateir rhoi'r driniaeth i adar a ffermir.

Rhaid rhoi anesthetig pan fo'r anifail yn 10 niwrrnod oed neu'n hŷn na hynny.